

Datblygu'r 'Plentyn Cyfan'

Yn ogystal â darparu **cyfleoedd** i blant ddatblygu eu **gallu corfforol**, mae'n bwysig bod plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu **sgiliau allweddol ehangach** yn rhan o sesiynau'r Ddraig. Mae'r sgiliau allweddol ehangach hyn yn **bwysig** i'w **cymhelliant** i fynychu sesiynau, eu harferion o safbwynt **cyfranogiad** hirdymor a'u datblygiad **cyffredinol**, oherwydd gellir **trosglwyddo'r** sgiliau hyn i agweddau eraill ar eu bywyd.

Ceir adran '**Cyfleoedd i'** ar bob **Cerdyn Gweithgareddau**. Mae'r adran hon yn rhoi **enghreiffiau** o'r cyfleoedd niferus y mae pob gweithgaredd yn eu cynnig. Fel darparwr rhaid i chi benderfynu, ar y cyd **â'ch cyfranogwyr**, pa **gyfleoedd/canlyniadau** sydd fwyaf dymunol a sut y gellir addasu'r gweithgaredd i gyflawni'r canlyniadau hynny. Mae'r daflen ffeithiau '**Cysylltu Dysgu â Gweithgareddau**' yn nodi pa nodweddion dysgu sy'n ymddangos ar ba Gerdyn Gweithgareddau.

Mae'r datganiadau 'Cyfleoedd i' yn dod o ddisgrifiadau lefel **Addysg Gorfforol yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru** (2008). Fodd bynnag, gallech benderfynu ar y cyd â'ch cyfranogwyr eich bod am ganolbwyntio ar sgiliau eraill a datblygu cyfleoedd ychwanegol.

Dyma rai cyfleoedd ychwanegol y byddech efallai'n hoffi eu hystyried:

Datblygu Meddwl

- Gofyn **cwestiynau**
- Defnyddio sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol
- Cynllunio gweithgareddau, **strategaethau a thactegau**
- Penderfynu beth yw llwyddiant
- Cynhyrchu eu syniadau eu hunain – **creadigrwydd**
- **Dysgu o gamgymeriadau** a chanlyniadau annisgwyl
- **Gwerthuso** beth ddigwyddodd a pham
- Cynnig awgrymiadau ynghylch **gwelliannau**
- Ffurfio barn a gwneud **penderfyniadau**
- Gwneud cynlluniau, eu gwirio'n rheolaidd a'u **diwygio** fel y bo angen
- Creu **cysylltiadau** â sefyllfaoedd eraill

Datblygu Cyfathrebu

- **Gwranddo** yn ofalus, **gofyn cwestiynau** ac ymateb i eraill
- Mynegi syniadau a safbwyntiau **yn hyderus**
- **Cyfrannu** i drafodaethau mewn pâr, grŵp bach, fim a grŵp cyfan

Datblygu TGCh

- Defnyddio ystod o strategaethau **TGCh i ddadansoddi** a gwerthuso perfformiad. Defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i wella perfformiad
- **Defnyddio TGCh yn ddiogel gyda chymorth ac arweiniad priodol**



Datblygu'r 'Plentyn Cyfan'

Datblygu Rhif

- Defnyddio rhif mewn amrywiaeth o ffyrdd
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddatrys problemau rhifol ac ymarferol, e.e. cyfrifo sgorau timau, cyfartaledd, gwahaniaeth o ran goliau, cynnydd ar ffurf canran, ac ati

Gweithio gydag eraill

- Gweithio mewn modd **cydweithredol** i ddatrys problemau
- Creu a chynnal **cyfeillgarwch** a **pherthnasoedd** eraill
- Gwrthsefyll pwysau ac ymddygiad nas dymunir gan gyfoedion
- **Empatheiddio** â phrofiadau a theimladau pobl eraill
- Rheoli gwahanol emosiynau a datblygu strategaethau i **ddatrys** gwrthdaro ac ymdrin â bwlio

Gwella eu dysgu eu hunain

- Cael profiad o ystod o arddulliau, a chydabod sut y maent yn dysgu orau
- Myfyrio ynghylch cynnydd, adnabod cryfderau a gwendidau a gosod targedau ar gyfer gwella
- Cymhwyso'r hyn a ddysgwyd i sefyllfaoedd tebyg
- Datblygu sgiliau ymarferol ar gyfer bywyd **pob dydd**

Dinasyddiaeth Weithgar

- Datblygu **parch** atynt eu hunain ac at eraill
- **Gwerthfawrogi amrywiaeth** a chydabod pwysigrwydd cyfle cyfartal
- Deall sefyllfaoedd sy'n creu gwrthdaro a deall natur bwlio
- Deall yr hyn a olygir wrth anableded a'r heriau y gallai unigolion fod yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad i gyfleoedd

Iechyd a lles emosiynol

- Cymryd cyfrifoldeb cynyddol dros gadw'r meddwl a'r corff yn **ddiogel** ac yn **iach**
- Teimlo'n **gadarnhaol** amdanynt eu hunain a bod yn **sensitif** i deimladau pobl eraill
- Deall nodweddion a manteision corfforol ac emosiynol ffordd iach o fyw

Datblygiad moesol ac ysbrydol

- Archwilio eu gwerthoedd personol
- Bod yn **onest** ac yn **deg** a **pharchu'r** rheolau

Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes

- **Mwynhau** a gwerthfawrogi dysgu a **chyflawniadau**
- Cymryd **cyfrifoldeb** cynyddol am eu dysgu
- Mabwysiadu ystod o **rolau** heblaw rôl perfformiwr, er enghraifft, rôl hyfforddwr, dyfarnwr, sgoriwr ac ati